



**Cyngor Sir Powys
Strategaeth Hybu'r Gymraeg
2025 - 2030**



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad a gweledigaeth	3
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.....	4
Mwy na Geiriau	4
Cryfach, Tecach, Gwyrddach – Ein Cynllun Corfforaethol.....	5
Y Gymraeg ym Mhowys: Canlyniadau Cyfrifiad 2021	6
Targed y strategaeth	7
Amcanion y strategaeth	7
Amcan 1	7
Amcan 2	8
Amcan 3	9
Monitro ac arolygu hynt y gwaith	11
Goblygiadau o ran adnoddau a chyllideb	11
Atodiadau	12
Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu.....	12
Atodiad 2 – Dadansoddi ffigyrau Cyfrifiad 2021 o ran siaradwyr Cymraeg.....	28
Atodiad 3 - Canllaw asesu medrau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd a gwag.....	33
Atodiad 4 - Arolygu cydymffurfedd adrannau â Safonau'r Gymraeg.....	36
Atodiad 5 - Dogfennau a pholisïau cysylltiedig.....	40
Atodiad 6 - Partneriaid a Rhanddeiliaid.....	41
Atodiad 7 – Adnoddau hybu enghreifftiol	43

Cysylltwch â ni:

Os hoffech wneud sylwadau ar y strategaeth hon, neu os hoffech wybod mwy am yr hyn rydym yn ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg ym Mhowys, cysylltwch â Swyddog y Gymraeg:

Ffôn: 01597 826040

E-bost: cymraeg@powys.gov.uk

Cyflwyniad a gweledigaeth

Mae Powys yng nghanol Cymru a chredwn y dylai'r Gymraeg fod wrth galon popeth a wnawn. Dyma ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar gyfer 2025 i 2030 wedi'i hysgrifennu yn unol â gofynion statudol Safonau'r Gymraeg. Mae'r strategaeth yn nodi sut y byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg ym Mhowys ac yn ei gwneud yn haws ei defnyddio. Credwn fod y Gymraeg yn iaith i'r sir gyfan a'i bod yn perthyn i bawb ym Mhowys. Dyma ein gweledigaeth:

**Byddwn yn cefnogi mwy o bobl i siarad Cymraeg yn hyderus
ledled Powys a defnyddio'r iaith yn eu cymunedau.**

Dangosodd ffigurau cyfrifiad 2021 ostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg yn y sir, o 19% yn 2011 i 16% yn 2021. Felly ein blaenoriaeth ar gyfer y strategaeth hon yw atal y gostyngiad. Er mwyn cyflawni ein huchelgais, rydym wedi gosod tri amcan:

1. Cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc ym Mhowys sy'n siarad Cymraeg yn hyderus.
2. Cynyddu defnydd y Gymraeg yn ein gwaith mewnol.
3. Annog busnesau, y sector gwirfoddol a sefydliadau cymunedol ym Mhowys i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chwsmeriaid.

Cynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg Gymraeg yw'r ffordd fwyaf effeithiol o greu mwy o siaradwyr Cymraeg yn ôl Llywodraeth Cymru.¹ Mae'r strategaeth hon felly'n cyd-fynd â'n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022 i 2032.

Rydym wedi ymrwmo i gynnig gwasanaethau cyhoeddus hawdd eu defnyddio yn Gymraeg sy'n bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg. Rydym yn cydnabod bod gennym feysydd i'w datblygu yma, ac i'n trigolion mwyaf agored i niwed, mae cael mynediad at wasanaethau hawdd eu defnyddio ac o ansawdd uchel yn Gymraeg yn angenrheidiol, nid yn ddymunol.

Mae llawer i'w ddathlu hefyd. Croesawyd Eisteddfod yr Urdd i Feifod, gogledd Powys ym mis Mehefin 2024 ac roedd ein pabell yn llwyddiant ysgubol, fel roedd y digwyddiad cyfan. Rydym yn hynod ddiolchgar i staff a phwyllgor gwaith yr Urdd a'n cefnogodd.

Croesawyd [adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg](#) ym mis Awst 2024 a byddwn yn ystyried eu hargymhellion fel y gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau defnyddio'r Gymraeg ledled Powys ar gyfer gwaith, dysgu a hamdden.

Y Cyngorydd Sandra Davies

Aelod Cabinet ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg

Y Cyngorydd Elwyn Vaughan

Cadeirydd Panel Llywodraethu'r Gymraeg, Cyngor Sir Powys.

¹ Ffynhonnell: [Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg](#), Llywodraeth Cymru, 2017, tudalen 21.

Cyd-destun cyfreithiol

Datganodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru a chreodd Safonau'r Gymraeg. Mae'r safonau hyn yn hyrwyddo'r iaith, yn ei gwneud yn haws ei defnyddio ac yn sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â'r safonau hyn yn y meysydd canlynol:

- pan fyddwn yn darparu gwasanaethau
- pan fyddwn yn llunio ac yn adolygu polisïau
- yn ein gweithrediadau mewnol
- wrth gadw cofnodion
- sut rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg

Gallwch weld rhestr lawn o'r safonau y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw [yma](#).

Mae Safon 145 y Safonau yn nodi'r canlynol:

“Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut yr ydych yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso ei defnydd yn ehangach yn eich ardal. Rhaid i'r strategaeth gynnwys:

- a) targed (o ran canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a
- b) datganiad yn nodi sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd o gyhoeddi strategaeth (neu o gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig).”

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn datgan bod rhaid i gyrff cyhoeddus weithio tuag at saith nod llesiant, ac un ohonynt yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Rydym felly o dan ddyletswydd i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a gweithio tuag at y nod llesiant hwn.

Mwy na Geiriau

Mae'r strategaeth hon gan Lywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol o ddewis iaith yn y sector gofal cymdeithasol. Mae'n golygu cynnig gwasanaeth yn Gymraeg heb i bobl orfod gofyn amdano. Rydym yn cydnabod y gwahaniaeth aruthrol y gall y dull hwn o weithio ei wneud i fywydau pobl. Rydym felly yn benderfynol o'i hymgorffori yn ein gwaith beunyddiol a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu.

Cryfach, Tecach, Gwyrddach – Ein Cynllun Corfforaethol

Mae'r strategaeth hon a'i chynllun gweithredu'n hanfodol i gyflawni ein blaenoriaethau a'n dyheadau ar gyfer cefnogi a datblygu'r Gymraeg yn ein sefydliad a thrwy Bowys. Mae ein strategaethau a'n cynlluniau corfforaethol wedi'u cynllunio i gydweithio yn y tymor hir i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. Mae hyn yn cynnwys cysoni'r strategaeth hon (a'i chynllun gweithredu) â'r Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol (Cryfach, Tecach, Gwyrddach) i sicrhau ein bod yn blaenoriaethu gweithgareddau a fydd yn creu cyfleoedd a phrofiadau cadarnhaol i bobl Powys.

Y Gymraeg ym Mhowys: Canlyniadau Cyfrifiad 2021


Dangosodd cyfrifiad 2021 fod 16.2% o drigolion Powys yn gallu siarad Cymraeg: gostyngiad o 2.4% ers Cyfrifiad 2011 a 4.9% ers cyfrifiad 2001. Mae hyn yn golygu na wnaethom gyflawni'r targed o 21.1% a osodwyd gennym yn ein Strategaeth ar gyfer 2017-2022.

Fodd bynnag, mae gobaith ar gyfer y dyfodol. Dangosodd y cyfrifiad fod y Gymraeg yn iaith pobl ifanc ym Mhowys. Mae canran y siaradwyr Cymraeg 3-15 a 16-24 oed yn uwch na chanran pobl hanner cant oed a hŷn² ym mhob un o'n cymunedau heblaw Ystradgynlais.

Tabl 1: Canran y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys

	Cyfrifiad 2001	Cyfrifiad 2011	Cyfrifiad 2021
% o boblogaeth Powys sy'n gallu siarad Cymraeg	21.1	18.6	16.2

Tabl 2: Cyfrifiad 2021 – canran y siaradwyr Cymraeg yn ôl grŵp oedran³



² Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021. Dadansoddiad yn ôl ardal ac oedran, gweler Atodiad 2.

³ Ffynhonnell: Deallusrwydd Busnes Cyngor Sir Powys, yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021.

Targed y strategaeth

Yn unol â Safon 145 Safonau'r Gymraeg, rhaid i'r strategaeth hon gynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys erbyn diwedd ei gyfnod o bum mlynedd, sef 2030. Rhaid i'r targed fod o ran canran y siaradwyr.

Felly, ein targed ar gyfer diwedd y strategaeth hon yw **cynnal nifer y siaradwyr Cymraeg ar 16.2% erbyn 2030**.

Gan na fydd canlyniadau'r cyfrifiad nesaf yn cael eu cyhoeddi tan 2032, ni fyddwn yn gallu defnyddio data'r cyfrifiad i wybod a wnaethom gyflawni ein targed. Mae ffynonellau eraill, fel yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ond nid yw hyn yn rhoi'r un sicrwydd â'r cyfrifiad. Hefyd ni fyddem yn cymharu tebyg wrth debyg. Byddai angen cafeat ar unrhyw ffigur o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2030 gan fod y ffigurau hyn yn tueddu i fod yn uwch na ffigurau'r cyfrifiad.

Amcanion y strategaeth

Er mwyn cyflawni ein huchelgais ar gyfer y Gymraeg ym Mhowys, rydym wedi gosod tri amcan gyda mesurau cysylltiedig. Cefnogir y rhain gan gynllun gweithredu yn Atodiad 1. Byddwn yn monitro'r amcanion hyn bob chwarter i sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd.

Amcan 1

Cynyddu nifer y plant a phobl ifanc ym Mhowys sy'n siarad Cymraeg yn hyderus.

[Beth ydym yn ei wybod am y maes hwn a pham ein bod yn ei ddewis fel blaenoriaeth?](#)

Dangosodd cyfrifiad 2021 ostyngiad o 2.4% mewn siaradwyr Cymraeg ym Mhowys o'i gymharu â chyfrifiad 2011. Pe bai'r duedd hon yn parhau dros y 30 mlynedd nesaf, dim ond 9% o drigolion Powys fyddai'n gallu siarad Cymraeg erbyn 2051. Mae'n hanfodol felly ein bod yn atal y dirywiad yn gyntaf, ac yna'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Plant a phobl ifanc yw dyfodol unrhyw iaith felly dyma ein blaenoriaeth.

Mae ein [Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg](#) yn nodi sut y byddwn yn cyflawni'r amcan hwn. Er mwyn osgoi dyblygu, ni fyddwn yn nodi ei gamau gweithredu yma.

Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd a'n llwyddiant?

- a. Cynnydd yng nghanran y plant meithrin (plant teirblwydd) sy'n derbyn eu haddysg yn Gymraeg. Roedd hyn yn 421 o ddisgyblion neu 36.4% yn 2022–23⁴. Y targed yn ein Cynllun Cymraeg mewn Addysg yw y bydd 44% o blant teirblwydd yn derbyn addysg Gymraeg erbyn 2032.
- b. Cynnydd yng nghanran y plant dosbarth derbyn (plant pum mlwydd) sy'n cael eu haddysgu yn Gymraeg. Roedd hyn yn 21% ym mlwyddyn academaidd 2022–23⁵.
- c. Cynnydd yng nghanran y plant sy'n parhau mewn addysg Gymraeg o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Roedd hyn yn 83% yn 2020-2021⁶.
- d. Cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n astudio TGAU Cymraeg Iaith (iaith gyntaf). Yn 2023-24, roedd hyn yn 11%⁷.
- e. Canran y disgyblion sy'n astudio TGAU Cymraeg Ail Iaith sy'n ennill graddau A-A*. 20.3% oedd hyn yn 2023-24.

Amcan 2

Cynyddu defnydd y Gymraeg yn ein gwaith mewnol.

Beth ydym yn ei wybod am y maes hwn a pham rydym yn ei ddewis fel blaenoriaeth?

Byddwn yn datblygu ethos sy'n annog ein staff a'n haelodau etholedig i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn eu gwaith beunyddiol a datblygu eu gallu yn y Gymraeg. Mae hyn yn bwysig i staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg nad ydynt yn defnyddio'r iaith gartref nac yn gymdeithasol bob dydd.

Un uchelgais yn ein Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol yw darparu mynediad tecach, mwy cyfartal at wasanaethau. Byddwn yn cyfrannu at hyn drwy beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, sef prif nod Safonau'r Gymraeg.

⁴ Data Canolfannau Athrawon 2022-23

⁵ Ibid (yn yr un man)

⁶ Data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2021

⁷ Data Canolfannau Athrawon 2023-24. Sylwch fod disgyblion o ardal Pontsenni ac Ystradgynlais yn aml yn trosglwyddo i addysg Gymraeg yn Ysgol Gyfun Ystalyfera sydd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Rydym yn gweithio gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot i gael cytundeb rhannu data.

Dangosodd cyfrifiad 2021 fod 16% o drigolion Powys yn siarad Cymraeg, ond dim ond 13% o'n staff sy'n gallu cynnal sgwrs sylfaenol a chynnig gwasanaeth yn Gymraeg. Felly mae angen cau'r bwlch fel ein bod yn cynrychioli'r sir rydym yn ei gwasanaethu. Mae angen i ni recriwtio mwy o staff sy'n siarad Cymraeg a datblygu medrau Cymraeg ein gweithlu.

I rai o'n trigolion na allant gyfathrebu'n hawdd yn Saesneg neu o gwbl, nid yw derbyn a gofyn am wasanaethau yn Gymraeg yn ddymuniad, mae'n angenrheidiol. Felly mae angen i ddarparwyr trydydd parti wybod yn union beth rydym yn disgwyl iddynt ei wneud o ran y Gymraeg.

Sut byddwn ni'n mesur ein cynnydd a'n llwyddiant?

- a. Canran y staff sy'n gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg⁸. Roedd hyn yn 13% ym mis Chwefror 2025⁹. Ein huchelgais yw i hyn fod yn gyfateb i ganran y trigolion ym Mhowys sy'n siarad Cymraeg, sef 16%¹⁰.
- b. Canran y staff sy'n mynychu – neu sydd wedi mynychu – cyrsiau dysgu Cymraeg sy'n dweud eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn eu gwaith.
- c. Canran y staff sy'n cofrestru ar gyrsiau dysgu Cymraeg dilynol, megis Sylfaen a Chanolradd.
- d. Nifer y staff sy'n mynychu sesiynau sgwrsio anffurfiol Cymraeg yn Neuadd y Sir.

Amcan 3

Annog busnesau, y sector gwirfoddol a sefydliadau cymunedol ym Mhowys i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chwsmeriaid.

Beth ydym ni'n ei wybod am y maes hwn a pham ein bod ni'n dewis hyn fel blaenoriaeth?

Er mwyn i iaith ffynnu, rhaid ei gweld a'i chlywed yn y gymuned. Nid ydym am i'r Gymraeg fod yn iaith a glywir yn yr ysgol yn unig. Mae gennym gyfrifoldeb am adfywio economaidd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan mai un o nodau'r Ddeddf yw 'Cymru Ffyniannus'.

⁸ Mae gallu darparu gwasanaeth yn Gymraeg yn golygu bod staff yn gallu siarad Cymraeg ar Lefel 3 neu'n uwch. Golyga Lefel 3 fod staff yn gallu sgwrsio'n fyrfyr am destunau cyfarwydd.

⁹ Ffynhonnell: Uned Deallusrwydd Busnes Cyngor Sir Powys. Dyma ganran gyfunol y staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar lefel 3, 4 a 5 sydd felly'n gallu cynnig gwasanaeth yn Gymraeg. Ar lefel 3, bydd staff yn gallu cynnig gwasanaeth sylfaenol yn Gymraeg.

¹⁰ Ffynhonnell: Ffigurau Cyfrifiad 202.1

Mae ymchwil gan Gomisiynydd y Gymraeg¹¹ yn dangos bod cynnig gwasanaethau yn Gymraeg yn dda i fusnes gan ei fod yn helpu i feithrin perthynas dda â chwsmeriaid.

Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd a'n llwyddiant?

- a. Nifer y busnesau sy'n manteisio ar gynllun cydnabyddiaeth [Cynnig Cymraeg](#) Comisiynydd y Gymraeg.
- b. Nifer y busnesau sy'n arddangos adnoddau gan Gomisiynydd y Gymraeg i ddangos bod staff yn siarad Cymraeg, [megis y logo a'r bathodyn swigen siarad oren](#).
- c. Canran y siopau canol tref yn Llanidloes a Rhaeadr Gwy sy'n gallu cynnig gwasanaeth i gwsmeriaid sylfaenol yn Gymraeg.

¹¹ Yn ôl ymchwil gan y Cyngor ar Bopeth, mae 82% o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd yn fwy tueddol o ddewis cwmni sy'n darparu gwasanaeth Cymraeg da.

Monitro ac arolygu hynt y gwaith

Cefnogir ein strategaeth gan gynllun gweithredu sydd i'w weld yn Atodiad 1. Mae hwn yn dangos yn union sut y byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth a'n hamcanion ledled Powys. Mae'n nodi beth sydd angen digwydd, erbyn pryd a phwy sy'n gyfrifol. Mae hefyd yn nodi'r partneriaid a'r rhanddeiliaid y bydd angen i ni weithio gyda nhw.

Byddwn yn gwerthuso effeithiolrwydd y strategaeth hon drwy gyfarfodydd chwarterol ein grŵp craffu mewnol, Panel Llywodraethu'r Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gweithio tuag at ein hamcanion ac yn gweithredu'n gyflym os ydym wedi gwyro oddi ar y trywydd iawn.

Bydd Swyddog y Gymraeg yn cyfarfod â Rheolwr y Gymraeg a Chyfathrebu bob mis i adolygu cynnydd y cynllun gweithredu hwn. Bydd Cadeirydd Panel Llywodraethu'r Gymraeg yn cyfarfod â'r Swyddog y Gymraeg y tu allan i gyfarfodydd y panel i arolygu cynnydd.

Goblygiadau o ran adnoddau a chyllideb

Oherwydd ei natur draws-sefydliadol, nid oes gan y strategaeth hon adnoddau penodol ynghlwm, a rhagwelir y bydd yn cael ei hystyried yn ystod prosesau cynllunio adnoddau gwasanaethau. Wrth gynllunio camau gweithredu o ran sut y caiff hyn ei gyflawni, bydd meysydd gwasanaeth yn ystyried pa adnoddau (ariannol a gweithlu) sydd eu hangen arnynt i gyflawni'r strategaeth hon. Byddwn yn adolygu hyn fel rhan o'n trefniadau monitro.

Oherwydd yr argyfwng ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu ar hyn o bryd bydd y cyllid sydd ar gael yn gyfyngedig. O ganlyniad bydd rhaid inni gynnal gweithgareddau o fewn cwpas cyllidebau presennol.

Atodiadau

Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu

Blwyddyn 1

Blwyddyn 1: 1 Ebrill 2025 – 30 Mawrth 2026								
Cyfeirnod	Cam Gweithredu	Amcan	Person cyfrifol	Chwarter	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Cwblhau	Statws	Cofnod newidiadau
1.1	Gan gydweithio â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Powys, a'n tîm Derbyn i Ysgolion, byddwn yn hyrwyddo addysg Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys ymgyrch gyfathrebu ac ymgysylltu wedi'i anelu at ddarparu rieni, rhieni a gofalwyr.	1	Swyddogion y Gymraeg Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Tîm Cyfathrebu Cyngor Sir Powys (CSP)	Chwarter 1	01/04/2025	30/06/2025	Heb ddechrau eto	03/02/2025 – Nododd Siôn Rowley (SR) y dyddiad cwblhau fel 30/06/2025.
1.2	Gan gydweithio â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, byddwn yn cyfeirio rhieni at adnoddau a gwefannau Cymraeg fel Clwb	1	Swyddogion y Gymraeg Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Chwarter 1-2	01/04/2025	30/09/2025	Heb ddechrau eto	03/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 01/04/2025.

Blwyddyn 1: 1 Ebrill 2025 – 30 Mawrth 2026

Cyfeirnod	Cam Gweithredu	Amcan	Person cyfrifol	Chwarter	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Cwblhau	Statws	Cofnod newidiadau
	Cwtsh ¹² , gwefan Cyw, a'r Mudiad Meithrin .		Tîm Cyfathrebu CSP					
1.3	Byddwn yn hyrwyddo ein gwefan Taith at Ddwy Iaith sy'n tynnu sylw at fanteision addysg Gymraeg.	1	Arweinydd y Gymraeg, Y Gwasanaeth Ysgolion Tîm Cyfathrebu CSP	Chwarter 2	01/07/2025	30/09/2025	Heb ddechrau eto	03/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn fel 01/07/2025.
1.4	Bydd Swyddog y Gymraeg yn mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith gyda'r cwmni ymgynghori cynllunio iaith, Iaith Cyf. Yn dilyn hyn, bydd Swyddog y Gymraeg yn rhoi cyfarwyddyd i Benaethiaid Gwasanaeth ar yr egwyddorion allweddol. Bydd hyn yn cynnwys y rôl bwysig	2	Swyddog y Gymraeg	Chwarter 1- Chwarter 2 yn dibynnu ar pryd y cynhelir y cwrs	01/04/2025	30/09/2025	Heb ddechrau eto	Bydd Swyddog y Gymraeg yn mynychu'r cwrs yn ystod gwanwyn neu haf 2025 yn dibynnu ar ba bryd y cynhelir y cwrs.

¹² Mae Clwb Cwtsh yn bartneriaeth rhwng arbenigwyr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Blynyddoedd Cynnar, Mudiad Meithrin. Mae'n cynnwys sesiynau dysgu Cymraeg anffurfiol ac ysgafn i rieni a gwarcheidwaid.

Blwyddyn 1: 1 Ebrill 2025 – 30 Mawrth 2026

Cyfeirnod	Cam Gweithredu	Amcan	Person cyfrifol	Chwarter	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Cwblhau	Statws	Cofnod newidiadau
	gweithleoedd wrth hyrwyddo a sicrhau dyfodol y Gymraeg.							
1.5	Byddwn yn llunio a lansio ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith busnesau Powys o fanteision cynnig gwasanaethau i gwsmeriaid yn Gymraeg.	3	Swyddog y Gymraeg Tîm Cyfathrebu	Chwarter 3	01/10/2025	31/12/2025	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 01/10/2025
1.6	Byddwn yn llunio canllaw i staff ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith beunyddiol yn seiliedig ar yr hyfforddiant yng ngham gweithredu 1.4 uchod. Bydd hwn ar gael ar ein mewnwyd staff a byddwn yn ei lansio trwy ymgyrch cyfathrebu fewnol.	2	Swyddog y Gymraeg Y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol	Chwarter 3	01/10/2025	30/12/2025	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Pennodd SR y dyddiad cychwyn arfaethedig fel 01/10/2025.
1.7	Byddwn yn lansio ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio busnesau Powys at gyrsgiau Cymraeg Gwaith ar-lein a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol . Mae'r rhain yn cynnwys modiwlau hunan-astudio ar gyfer siopau.	3	Swyddog y Gymraeg Tîm Cyfathrebu	Chwarter 4	05/01/2026	31/03/2026	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Pennodd SR y dyddiad cychwyn arfaethedig fel 05/01/2026.

Blwyddyn 1: 1 Ebrill 2025 – 30 Mawrth 2026

Cyfeirnod	Cam Gweithredu	Amcan	Person cyfrifol	Chwarter	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Cwblhau	Statws	Cofnod newidiadau
1.8	Hyrwyddo gwasanaeth cyfieithu a phrawf ddarllen Cymraeg Llywodraeth Cymru, Helo Blod , i fusnesau. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael am ddim.	3	Swyddog y Gymraeg Y Tîm Cyfathrebu	Chwarter 4	05/01/2026	31/03/2026	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn arfaethedig fel 05/01/2026.

Blwyddyn 2

Blwyddyn 2 y Strategaeth: 1 Ebrill 2026 – 30 Mawrth 2027								
Cyfeirnod	Cam Gweithredu	Amcan	Person cyfrifol	Chwarter	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Cwblhau	Statws	Cofnod newidiadau
2.1	Trefnu grwpiau sgwrsio i staff ymarfer eu Cymraeg. Byddwn yn cynnal y rhain wyneb yn wyneb ac ar-lein. Bydd yn cynnwys sesiynau yn Neuadd y Sir a sesiynau 'cerdded a chlonc' yn ystod amser cinio.	2	Swyddog y Gymraeg Tîm Cyfathrebu Swyddogion Arweiniol Mentrau iaith Powys: Menter Brycheiniog a Maesyfed, a Menter Maldwyn	1	01/04/2026	31/03/2030	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 01/04/2026. Bydd y cam gweithredu hwn yn rhedeg trwy gydol y strategaeth.
2.2	Bydd Swyddog y Gymraeg yn cyfarfod â phob Pennaeth Gwasanaeth yn flynyddol i adolygu cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.	2	Swyddog y Gymraeg Penaethiaid Gwasanaeth	Chwarter 1-3	01/04/2026	Unwaith y bydd y broses yn ei lle bydd yn rhedeg bob blwyddyn tan ddiwedd y strategaeth.	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 01/04/2026

Blwyddyn 2 y Strategaeth: 1 Ebrill 2026 – 30 Mawrth 2027

Cyfeirnod	Cam Gweithredu	Amcan	Person cyfrifol	Chwarter	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Cwblhau	Statws	Cofnod newidiadau
2.3	Gan gydweithio â darparwyr rhanbarthol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, byddwn yn hyrwyddo cyrsiau dysgu Cymraeg i rieni sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg.	1	Swyddog y Gymraeg Arweinydd y Gymraeg, Y Gwasanaeth Ysgolion	1	01/04/2026	30/06/2026	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 01/04/2026.
2.4	Byddwn yn cyflwyno modiwl ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i'r holl staff yn seiliedig ar gam gweithredu 1.4. Bydd hwn yn ddewisol yn y flwyddyn gyntaf.	2	Swyddog y Gymraeg Arweinydd Proffesiynol Cynllun a Datblygu'r Sefydliad Rheolwr Dysgu a Datblygu	1-4	01/04/2026	31/03/2027	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 01/04/2026.
2.5	Byddwn yn annog uwch reolwyr ac aelodau etholedig i ddechrau a gorffen cyfarfodydd, gohebiaeth a chyflwyniadau corfforaethol yn Gymraeg. Byddwn hefyd yn eu hannog i ddefnyddio cefndiroedd	2	Swyddog y Gymraeg Rheolwr y Cabinet Tîm Cyfathrebu	3-4	01/10/2026	31/03/2027	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 01/10/2026.

Blwyddyn 2 y Strategaeth: 1 Ebrill 2026 – 30 Mawrth 2027

Cyfeirnod	Cam Gweithredu	Amcan	Person cyfrifol	Chwarter	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Cwblhau	Statws	Cofnod newidiadau
	Teams sy'n dangos eu bod nhw'n gallu siarad Cymraeg neu'n dysgu.							
2.6	Gan gydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg, byddwn yn dosbarthu dwy fil o becynnau Iaith Gwaith i fusnesau ym Mhowys. Mae'r adnoddau hyn yn dangos bod staff yn gallu siarad Cymraeg. Maent yn cynnwys laniardiau, poster, ac adnoddau electronig fel llofnodion e-bost, a chefnidir rhithwir ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau Teams.	3	Swyddog y Gymraeg	4	04/01/2027	31/03/2027	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 04/01/2027.
2.7	Dosbarthu 1,000 o laniardiau i ddysgwyr Cymraeg i siopau a busnesau ym Mhowys.	3	Swyddog y Gymraeg	4	04/01/2027	31/03/2027	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn arfaethedig fel 04/01/2027.
2.8	Galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn arfer da rhaglen Arfor ¹³ i Bowys.	3	Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd a Thwf Busnesau	4	04/01/2027	31/03/2027	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 04/01/2027.

¹³ Menter ar y cyd gan gynghorau sir Caerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn yw Arfor sy'n ceisio defnyddio menter a datblygiad economaidd i gefnogi cadarnleoedd y Gymraeg a thrwy hynny gynnal yr iaith.

Blwyddyn 3

Trydedd Flwyddyn y Strategaeth: 1 Ebrill 2027 – 30 Mawrth 2028

Cyfeirnod	Cam Gweithredu	Amcan	Person cyfrifol	Chwarter	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Cwblhau	Statws	Cofnod newidiadau
3.1	Byddwn yn creu clipiau sain a fideos o ymadroddion i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth, megis esbonio nod y wers a gwaith holi ac ateb gyda disgyblion. Bydd y rhain ar gael i athrawon ar ein mewnrwyd staff a'n gwefan gyhoeddus. Byddwn yn rhannu ymadrodd Cymraeg yr wythnos ar gyfer yr ystafell ddosbarth gyda chlipiau sain cyfatebol.	2	Arweinydd y Gymraeg, Y Gwasanaeth Ysgolion Swyddog y Gymraeg	Chwarter 1-2	01/04/2027	30/09/2027	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 01/04/2027.
3.2	Byddwn yn sicrhau bod ein polisiâu'n ymateb i anghenion cymdeithasol ac ieithyddol ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ym Mhowys ¹⁴ . Byddwn yn ystyried ardaloedd ym Mhowys nad ydynt yn cyrraedd	1, 3	Pennaeth yr Economi a Hinsawdd	Chwarter 1-4	01/04/2027	30/03/2028	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 01/04/2027.

¹⁴ Yn ôl Comisiwn Cymunedau Cymraeg, ardal lle mae 40% neu fwy o bobl yn siarad Cymraeg yw ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dyma'r ardaloedd felly ym Mhowys yn ôl Cyfrifiad 2021: Glantwymyn; Machynlleth; Llanbryn-mair a Banwy; Llanrhaeadr-ym-Mochnant.

Trydedd Flwyddyn y Strategaeth: 1 Ebrill 2027 – 30 Mawrth 2028

Cyfeirnod	Cam Gweithredu	Amcan	Person cyfrifol	Chwarter	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Cwblhau	Statws	Cofnod newidiadau
	trothwy 40% o siaradwyr Cymraeg ond sydd â chanran o siaradwyr Cymraeg yn uwch na 25%, fel Caersŵs.							
3.3	Bydd yn orfodol i bob aelod o staff gwblhau ein modiwl ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg – gweler cam gweithredu 2.4. Bydd staff yn gwneud y modiwl drwy e-ddysgu a/neu sesiynau briffio staff ar gyfer timau gweithredol.	2	Swyddog y Gymraeg Rheolwr y Gymraeg a Chyfathrebu	Chwarter 1-4	01/04/2027	30/03/2028	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 01/04/2027.
3.4	Byddwn yn llunio Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg. Bydd hon yn mesur gallu Cymraeg ein gweithlu ac yn cynllunio ar gyfer medrau digonol i ddiwallu anghenion Cymraeg ein cymunedau. Yn enwedig y rhai sydd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ¹⁵ .	2	Swyddog y Gymraeg, gyda chefnogaeth yr Arweinydd Proffesiynol Cynllun a Datblygu'r Sefydliad	Chwarter 1-4	01/04/2027	30/03/2028	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 01/04/2027.

¹⁵ Ardal yw hon lle mae siaradwyr Cymraeg yn ffurfio mwyafrif, neu leiafrif sylweddol, o'r boblogaeth. Am fwy o wybodaeth gweler yr Adroddiad ar gyfer Comisiwn Cymunedau Cymraeg, *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg*, Awst 2024.

Trydedd Flwyddyn y Strategaeth: 1 Ebrill 2027 – 30 Mawrth 2028

Cyfeirnod	Cam Gweithredu	Amcan	Person cyfrifol	Chwarter	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Cwblhau	Statws	Cofnod newidiadau
3.5	Byddwn yn creu Hwb Cymraeg ar ein mewnrwyd. Bydd hyn yn cynnwys: canllawiau ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg; adnoddau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; ymadrodd yr wythnos; gwybodaeth a ffurflen gofrestru ar gyfer cyrsiau Dysgu Cymraeg; a chefnogaeth i staff sy'n dysgu Cymraeg.	2	Swyddog y Gymraeg gyda chefnogaeth y Rheolwr Datblygu TGCh	Chwarter 2-3	01/07/2027	31/012/2027	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 01/07/2027.
3.6	Byddwn yn creu clipiau sain a fideos o ymadroddion Cymraeg y gall rhieni di-Gymraeg eu defnyddio i gefnogi dysgu eu plant, megis gyda gwaith cartref. Bydd y rhain ar gael ar dudalennau Taith at Ddwy Iaith ar ein gwefan gyhoeddus.	1	Arweinydd y Gymraeg, YGwasanaeth Ysgolion Swyddog y Gymraeg	Chwarter 3	01/10/2027	31/12/2027	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 01/10/2027.
3.7	Byddwn yn cyfeirio staff datblygu chwaraeon a'r gwasanaeth ieuencid at ap Chwaraeon drwy'r Gymraeg o'r Coleg Cymraeg	1	Uwch Reolwr Chwaraeon a Datblygu	Chwarter 3	01/10/2027	31/12/2027	Heb ddechrau eto	06/02/2025 – Nododd SR y dyddiad cychwyn targed fel 01/10/2027.

